

Cyngor Cymuned Cerrig y Drudion
Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 11eg o Fai 2022

Presenol Guto Jones, Ffuon Williams, Einion Edwards, Prys Ellis, John Jones, Llio Morris, Carol Humphreys (Clerc) a Cynghorydd Sir Gwennol Ellis.

Cafwyd ymddiheuriadau gan Trystan Humphreys a Maria Roberts a Menai Hughes.

Croesawyd Gwennol Ellis a Llio Morris atom fel aelodau Newydd ar y Cyngor Cymuned.

Cytunodd ein is gadeirydd sef Prys Ellis fod yn Gadeirydd yn absenoldeb ein cadeirydd presenol Maria Roberts.

Ethol swyddogion Cadeirydd - pasiwyd gofyn i Maria Roberts wneud blwyddyn arall.

Is gadeirydd - Prys Ellis.

Datganiad derbyn swydd - pawb i lenwi y ffurflen ai llofnodi er cofnod.

Cofrestr o Ddidordeb aelodau pawb i lenwi y ffurflen ai llofnodi er cofnod.

Cofnodion y Cyfarfod 7fed o Chwefror 2022. Cadarnhawyd ei bod yn gywir.

Materion yn codi or cofnodion i ddilyn yn yr agenda.

[1.0] **Paentio yr ystafell pwyf** - Cafwyd dau bris i baentio pasiwyd gofyn i Glyn Davies wneud y gwaith. Deallwn bod y nenfwyd tu mewn angen sylw gofyn i Trystan Humphreys am ei farn cyn cychwyn paentio.

[1.1] **Ffurflen Awdit** – wedi ei cwblhau gan y Clerc ac wedi archwilio gan ein archwilydd mewnol sef Teleri Jones ac nawr yn ein Cyfarfod yr ydym yn ei cymeradwyo fel rhai cywir cyn ei anfon ymlaen i'r Archwilydd Allanol i'w archwilio ymhellach.

[1.2] **Cyngor Sir Conwy** cynllun chwarae allan yr haf - cafwyd llythyr gyda sesiwn arall i chwarae allan am gost – pasiwyd ei yrru ymlaen i'r rhieni ag athrawon gan bod yn Cyngor yn ariannu sesiwn yn barod.

[1.3] **Ymddiriedolaeth addysgol Cerrig y Drudion** - cafwyd llythyr yn diolch am ein cyfraniad llynnedd a gofyn os yr ydym am gyfrannu eto eleni pasiwyd i roi £200.00

[1.4] **Cyngor Sir Conwy** treth y Cyngor ar y llyfrgell - dim treth i'w dalu.

[1.5] **Kids with Cancer** - cafwyd llythyr yn gofyn am gyfraniad pasiwyd ei adael.

[1.6] **Rhys Harris** llythyr yn datgan bod y cyfrifydd yn hapus i dalu £600 am heirio yr ystafell plwyf.

[1.7] **Eisteddfod Genedlaethol Llangollen** - gofyn am gyfraniad pasiwyd i'w adael.

[1.8] **Ysgol Cerrig y Drudion** llythyr o ddiolch am ein cyfraniad tuag bws.

[1.9] **Ty Gobaith** llythyr o ddiolch am ein cyfraniad.

[2.0] **Ffioedd Claddu** oherywdd costau cynyddol pasiwyd i godi y ffioedd fel a ganlyn

Bedd Newydd £400.00 i'r rhai sydd wedi bod yn byw y plwyf. £800.00 tu allan i'r plwyf.

Ail agor a thrydydd mewn bedd £150.00 i'r rhai sydd wedi bod yn byw yn y plwyf. £300.00 tu allan i'r plwyf.

Gosod Carreg Fedd	£25.00	£50.00
-------------------	--------	--------

Gweddilllon Amlogfa		
---------------------	--	--

Tori enw ychwanegol	£20.00	£40.00
---------------------	--------	--------

[2.1] **Diffub** - cawn arddeall gan Tomos Hughes bod y dyddiad y 'pads' yn dod i ben ac roedd Tomos yn gofyn os roeddem am dalu adnewyddu y 'pads' am gost o £67.00 yr un mae 4 diffub yn ardal y Cyngor Cymuned, pasiwyd i'w ariannu.

[2.2] **Eglwys Santes Fair** - tal am heirio yr ystafell y plwyf £75.00.

- [2.3] **Cyngor Sir Conwy** taliad cyntaf y precept £2000.00.
- [2.4] **Cyngor Sir Conwy** tal treth yr ystafell plwyf £272.85 pasiwyd iw dalu.
- [2.5] **JC Evans** bil am dori gwrych 3 blynnedd £144.00 pasiwyd iw dalu.
- [2.6] **Arian Byw** anfoneb gan Teleri am wneud archwilio Awdit 20/21 £75.00 pasiwyd iw dalu.
- [2.7] **Unllais Cymru** tal aelodaeth £124.00 pasiwyd iw dalu.
- [2.8] **BHIB** yswiriant y Cyngor £580.38 pasiwyd iw dalu.
- [2.9] **J Humphreys and Co** anfoneb am y gwaith draenio yn y fynwent £5,400.00.
- [3.0] **Cyflog a costau y clerc** £1172.37. PAYE HMRC £546.02. pasiwyd iw dalu.

Unrhyw fater arall

- [3.1] **Llyfrgell Cerrig** plannu blodau diolch i Peter Lewis am blannu blodau a thwtio tu allan ir llyfrgell.
- [3.2] **Cyngor Sir Conwy** cysylltu i adrodd am dyllau yn y ffordd yn stryd Cae Llwyd.
- [3.3] **Hayden Roberts** anfoneb am dori gwair £220.00 pasiwyd iw dalu.
- [3.4] **Trafniadiaeth drwy'r pentre** cafwyd cwyn am drafnidiaeth yn trafelilio yn gyflwym i lawr stryd King Gwennol i edrych i mewn i hyn.
- [3.5] **Llwybr dros** ffordd ir ysgol am drofa Cefn Brith Gwennol am edrych i mewn i hyn. Efallai cychwyn deiseb i gefnogi ein cais i drio cael llwybr.
- [3.6] **Cytundeb Clerc ir Cyngor Cymuned** llofnodwyd gan y Cadeirydd.
- [3.7] **Disgrifiad Swydd y Clerc** llofnodwyd gan y Cadeirydd.

CADEIRYDD